CLD YW20

# Pennu, gwerthuso a blaenoriaethu amcanion eich sefydliad ar gyfer gwaith ieuenctid yn y gymuned

## Trosolwg

Mae ymchwilio a nodi anghenion pobl ifanc a'r gymuned leol mewn perthynas â gwaith ieuenctid yn helpu i bennu darpariaeth bresennol ac yn cyfrannu at ddatblygu a gwella'r gwaith ieuenctid a ddarperir yn y gymuned.

Byddwch yn ymchwilio i'r anghenion hynny gyda phobl ifanc, gan werthuso a dadansoddi a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion a nodwyd.

Byddwch yn dod i gasgliadau yn seiliedig ar eich canfyddiadau am anghenion pobl ifanc a'r gymuned. Byddwch yn gwneud argymhellion a fydd yn blaenoriaethu anghenion yn unol â chylch gwaith a gallu'r sefydliad i ddarparu cyfleoedd a gweithgareddau.

Mae'r safon hon ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â hysbysu neu ddatblygu cynlluniau gweithredol ar gyfer gwaith ieuenctid yn eu sefydliadau, yn ogystal â'r rhai sy'n cyfrannu at ddatblygu a gwella'r gwaith ieuenctid a ddarperir yn y gymuned.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. casglu'r wybodaeth sydd ar gael fel eich bod yn gallu asesu'r anghenion a'r materion sy'n ymwneud â darparu gwaith ieuenctid
2. pennu lefel a natur y gwaith ieuenctid a ddarperir yn y gymuned leol
3. pennu anghenion pobl ifanc yn y gymuned i lywio'r gofynion ar gyfer darparu gwaith ieuenctid
4. trafod a chytuno gyda phobl ifanc ar y cyfleoedd i wella a datblygu darpariaeth eich sefydliad
5. pennu gofynion rhanddeiliaid ac asiantaethau yn y dyfodol drwy ymgynghori ynghylch darparu gwaith ieuenctid
6. coladu ac asesu canfyddiadau, a nodi tueddiadau a phatrymau fydd yn helpu eich cynlluniau gweithredol
7. chwilio am unrhyw fylchau yn narpariaeth bresennol eich sefydliad
8. gwerthuso eich canfyddiadau, dod i gasgliadau a gwneud argymhellion ar gyfer yr ystod o weithgareddau sy'n ofynnol gan bobl ifanc a'r gymuned, gan ystyried ymarferoldeb a manteision eich sefydliad
9. bodloni'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol sy'n effeithio ar ddarparu gwaith ieuenctid, ac wrth ymchwilio i anghenion
2. y mathau o wybodaeth y gallai pobl ifanc, asiantaethau perthnasol a rhanddeiliaid eraill eu darparu sy'n briodol i sefydlu anghenion cymunedol o waith ieuenctid
3. dulliau cael adborth gan bobl ifanc ac asiantaethau a rhanddeiliaid perthnasol, a'u manteision a'u anfanteision cymharol
4. ffactorau sy'n dylanwadu ar ddarparu gwaith ieuenctid yn y gymuned
5. pwysigrwydd bod yn wrthrychol wrth werthuso adborth a'r ffactorau i'w hystyried wrth asesu ei ddilysrwydd
6. pwy yw'r asiantaethau a'r rhanddeiliaid perthnasol
7. technegau ar gyfer dadansoddi gwybodaeth ansoddol a meintiol
8. y cysyniad o ddadansoddi anghenion
9. pwysigrwydd cynllunio tymor hir a chanolig er mwyn cyflawni amcanion eich sefydliad yn llwyddiannus
10. sut i gael gafael ar ffynonellau gwybodaeth a chymorth wrth ymchwilio i anghenion cymunedol a nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid
11. pwysigrwydd gwneud asesiad ariannol o'r cyfleoedd a nodwyd, a sut i wneud hyn
12. y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

CLD YW20

Pennu, gwerthuso a blaenoriaethu amcanion eich sefydliad ar gyfer gwaith ieuenctid yn y gymuned

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CLD Standards Council Scotland |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CLD Standards Council Scotland |
| **RCU gwreiddiol** | LSI YW23 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ieuenctid |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Ieuenctid |
| **Geiriau Allweddol** | Ieuenctid; pobl ifanc; cymunedau; asiantaethau; ymchwilio; gwybodaeth; gofynion; darpariaeth; anghenion; ymchwil; dadansoddi; canfyddiadau; adborth; tueddiadau; patrymau; gwella |